**EITEM AR YR AGENDA: 17**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17 Mawrth 2014**

**PROTOCOL CYSYLLTIADAU AELODAU/SWYDDOGION**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

1 Ystyried protocol cysylltiadau aelodau/swyddogion. Mae'r Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Safonau wedi argymell fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r protocol ynghlwm yn atodiad A.

**Cefndir**

2 Yn 2011, gwnaed newidiadau i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a oedd yn cynnwys gofyniad i gyfrifon archwilio blynyddol yr Awdurdod gynnwys datganiad llywodraethu. Mae'r cod llywodraethu lleol yn nodi egwyddorion a safonau, gyda'r nod o gynorthwyo'r Awdurdod i fod yn atebol am gynnal busnes yn gywir. Mae'r Awdurdod yn adrodd yn gyhoeddus bob blwyddyn am y graddau y mae wedi cydymffurfio â'i god llywodraethu corfforaethol ei hun.

**Gwybodaeth**

3 Un o'r egwyddorion llywodraethu da a fabwysiadwyd yw 'Bydd y cynghorwyr a'r swyddogion yn cydweithio i gyflawni amcanion ar y cyd, a bydd diffiniadau eglur o'u rolau a'u gorchwylion'. Fel rhan o'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r egwyddor hon, mae'r Awdurdod wedi datgan y bydd yn sefydlu protocol ar gyfer sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng yr Aelodau a'r Swyddogion.

4 Mae'r protocol sydd yn Atodiad A yn rhestru'r arferion da sy'n bodoli o ran cysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dylid nodi nad rhestr ragnodol mohoni.

**Argymhelliad**

5 Bod yr Aelodau'n cymerdawyo'r polisi ar gysylltiadau aelodau/swyddogion.

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# PROTOCOL CYSYLLTIADAU AELODAU/SWYDDOGION

## Protocol Aelodau/Gweithwyr Cyflogedig

Mae'r protocol hwn yn rhoi trefn ar yr arferion da sy'n bodoli o ran cysylltiadau rhwng yr aelodau a'r swyddogion yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Nid rhestr ragnodol mohoni.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Er mwyn gweithredu busnes yr Awdurdod yn llwyddiannus, rhaid cael perthynas waith effeithiol rhwng yr aelodau a'r swyddogion.

1.2 Caiff yr **Aelodau** eu penodi gan eu cynghorau sir / bwrdeistref sirol, ac maent yn gwasanaethu hyd oni derfynir eu penodiad, y maent yn ymddiswyddo neu'n peidio â bod yn aelod o'u cyngor.

1.3 Caiff y **Swyddogion** eu cyflogi i gynghori'r Awdurdod ac i weithredu ei benderfyniadau. Rhaid i'r cyngor a roddir gan y swyddogion fod yn llawn ac yn ddiduedd, a dylai gynnwys yr holl opsiynau perthnasol. Ni ddylid ceisio rhadybio penderfyniadau'r aelodau, er enghraifft drwy eithrio opsiynau y tybir eu bod yn annerbyniol, a rhaid bod yn glir a phroffesiynol bob amser. Dylai'r aelodau barchu amhleidioldeb y swyddogion bob amser. Ond mae gan yr aelodau hawl i wrthod cyngor y swyddogion ac i weithredu eu polisïau cyfreithlon hwy, hyd yn oed os ydynt yn amlwg yn wahanol i farn y swyddogion. Mae gan yr aelodau hawl i geisio cyngor ac i alw am adroddiad ar gyfer pwyllgor ynglŷn ag unrhyw fater sydd o fewn ei gylch gorchwyl.

1.4 **Cysylltiadau rhwng yr aelodau a'r swyddogion** – Er mwyn cynnal busnes yr Awdurdod yn effeithiol rhaid i'r aelodau a'r swyddogion barchu ei gilydd mewn pob cyfarfod a chysylltiad. Mae angen cwrteisi mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Dylai'r aelodau fod yn ymwybodol fod y swyddogion wedi eu cyfyngu o ran yr ymateb y gallant ei roi i sylw cyhoeddus gan aelodau, ac ni ddylai'r aelodau sarhau'r swyddogion yn gyhoeddus nac yn y wasg, na cheisio tanseilio eu sefyllfa drwy ddweud pethau cas, bod yn anfoesgar neu wawdio. Nid yw hyn mewn unrhyw fodd yn lleihau hawl a dyletswydd briodol yr aelodau i feirniadu adroddiadau, gweithredoedd a gwaith adran neu ran o'r Awdurdod pan fônt yn credu bod lle i feirniadaeth o'r fath. Os yw'r aelodau'n credu bod ganddynt reswm i feirniadu gwaith swyddog unigol, y drefn gywir yw mynd at uwch reolwyr yr adran neu'r Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr. Felly hefyd, pan fo swyddogion yn teimlo bod ganddynt hwy achos da i feirniadu aelod, byddai cael y prif swyddog perthnasol i fynd at y Cadeirydd yn gam cyntaf synhwyrol.

1.5 Derbynnir yn eang y bydd yna gyswllt anffurfiol rhwng grwpiau gwleidyddol pleidiau a gweithwyr cyflogedig ar lefel uwch, a'r cyswllt hwnnw'n aml o natur sensitif. Nod y protocol hwn yw darparu fframwaith ar gyfer y cyswllt, ffurfiol ac anffurfiol, rhwng yr aelodau a'r gweithwyr cyflogedig, ac i sicrhau bod yr aelodau a'r swyddogion mor sicr ag y bo modd ynglŷn â'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'i gilydd.

## 2. Materion Penodol

2.1 **Penodiadau** – Rhaid i bob penodiad i swydd gyflogedig gydag awdurdod lleol gael ei wneud ar sail teilyngdod.

2.2 **Didueddrwydd gwleidyddol** – Ni all uwch swyddogion fod yn gynghorwyr awdurdod lleol nac yn ACau/ASau, ac ni allant ychwaith "siarad na chyhoeddi gwaith ysgrifenedig ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol na charfan o'r cyhoedd gyda'r bwriad amlwg o ddylanwadu ar gefnogaeth y cyhoedd tuag at blaid wleidyddol". Fodd bynnag, mae'r swyddogion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch o'r fath "i'r graddau y mae angen hynny er mwyn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol". (Adran 1- 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 – [cyfieithwyd o'r Saesneg]).

2.3 **Gan yr Awdurdod y mae'r swyddogion yn cael eu cyflogi,** nid gan bwyllgorau na chynghorwyr unigol, ac maent yn ddarostyngedig i weithdrefnau cyflogi'r Awdurdod. Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i swyddog gynghori unrhyw grŵp gwleidyddol ar yr Awdurdod, a hynny ynglŷn â gwaith y grŵp na gwaith yr Awdurdod, ac ni ellir ei gwneud yn ofynnol iddynt ychwaith fynychu unrhyw gyfarfodydd grwpiau gwleidyddol. Nid yw hyn yn mynd yn groes i unrhyw drefniadau i'r gwrthwyneb y gellid eu gwneud gydag unrhyw swyddog, ac sy'n cynnwys amddiffyniadau i gadw amhleidioldeb gwleidyddol y swyddog o ran materion yr Awdurdod.

2.4 **Awduraeth adroddiadau** – Gan y prif swyddog perthnasol neu swyddog arall sydd wedi ei awdurdodi ganddo ef neu ganddi hi y dylai adroddiadau pwyllgorau gael eu hysgrifennu. Adroddiad y swyddog ydyw, ac ni ellir ei newid gan aelod. Ni all aelod unigol ychwaith orchymyn i swyddog beidio â chyflwyno adroddiad os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Os ystyrir nad yw'r adroddiad yn briodol, yr ateb yw i'r pwyllgor wrthod ei argymhellion neu ei gyfeirio'n ôl.

2.5 **Grwpiau gwleidyddol a gwneud penderfyniadau** – Rhaid i'r aelodau a'r swyddogion ddeall mai dim ond yr Awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor, neu brif swyddogion yn gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig, sy'n gallu gwneud penderfyniadau'r Awdurdod. Ni ddylai aelodau a swyddogion weithredu ar sail penderfyniadau grŵp. I'r pwyllgor priodol y dylai partïon â diddordeb roi sylwadau am unrhyw fater i'r Awdurdod benderfynu arno, ac nid i grŵp gwleidyddol yn unig, oherwydd ni fyddai modd yno gael cyngor swyddogion ar y pwyntiau a godir.

2.6 **Cyfathrebu priodol rhwng yr aelodau a'r swyddogion** – Rhaid i'r prif swyddogion gydnabod ei bod yn ddyletswydd arnynt i roi gwybod yn llawn i'r aelodau am ddatblygiadau o bwys sy'n ymwneud â gweithgarwch yr Awdurdod. Hefyd, rhaid i'r prif swyddogion adrodd yn brydlon i'r pwyllgor perthnasol am unrhyw fethiant o bwys i weithredu un o benderfyniadau'r pwyllgor hwnnw.

Mae angen cyswllt rheolaidd rhwng yr aelodau a'r prif swyddogion er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithio'n effeithlon. Yn hyn o beth, cyfrifoldeb prif swyddogion yw nodi pa uwch swyddogion a ddylai gael cyswllt rheolaidd â'r aelodau, a bydd hyn yn dibynnu ar natur y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu a natur y cyswllt a ragwelir gyda'r aelodau. Ond dylai'r aelodau ddwyn pryderon mawr ynglŷn â materion yn uniongyrchol i sylw'r prif swyddog dan sylw. Gall prif swyddogion roi cyfarwyddiadau i'w staff i sicrhau mai felly y mae.

Gall problemau difrifol godi os bydd aelodau'n osgoi'r llinellau cyfathrebu â'r prif swyddogion a'u huwch weithwyr, ac yn ymdrin, er enghraifft, ag aelodau is o'r staff i geisio barn ar faterion polisi, busnes sydd heb fod yn fusnes arferol, neu geisio rhoi cyfarwyddiadau i'r staff. Mae hyn yn golygu amddifadu'r aelodau o'r cyngor ffurfiol, gwybodus ac atebol y mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl gan y prif swyddogion ac y mae dyletswydd arnynt i'w ystyried. Fe allai hefyd olygu tanseilio atebolrwydd ffurfiol y staff i'w rheolwr llinell.

2.7 **Cwrteisi a chwynion** – Dylai pob cysylltiad rhwng yr aelodau a'r swyddogion fod yn gwrtais bob amser, a hynny yn gyhoeddus ac yn breifat. Os oes gan aelod unigol gŵyn am swyddog is, dylid codi hynny gyda'r prif swyddog priodol.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag uwch swyddog, dylid ei chyflwyno i'r Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr. Dylid cyflwyno cŵyn am y Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr i Glerc yr Awdurdod. Gellir ymdrin â chŵyn fel rhan o gyswllt, goruchwyliaeth neu adolygiad, neu ei chyfeirio ar gyfer camau ffurfiol yn unol â gweithdrefnau'r Awdurdod ac unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n rheoli camau disgyblu. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn atal aelod rhag lleisio'n gyhoeddus, mewn cyfarfod neu mewn modd priodol arall, bryder ynglŷn â'r modd y mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu. Nid yw ychwaith yn atal aelodau, mewn cyfarfod ffurfiol, rhag bod yn feirniadol o gyngor neu weithred swyddog, neu ansawdd adroddiadau sydd ger eu bron.

2.8 Mae **cyswllt cymdeithasol** rhwng uwch swyddogion a'r aelodau yn beth llesol, a hynny yn gyhoeddus ac yng nghyd-destun gwaith. Fodd bynnag, rhaid cynnal perthynas broffesiynol bob amser, a rhaid i'r swyddogion fod yn ofalus i beidio â chymdeithasu ag aelodau o un grŵp gwleidyddol ar draul rhai eraill. Fe allai cyswllt cymdeithasol rhwng aelod a swydd is hefyd fod yn briodol cyhyd ag y bo hynny'n digwydd yn agored ac nad yw'n arwain at dorri cyfrinachedd neu gyfarwyddiadau rheolwyr, neu amheuaeth resymol o hynny. Dylai'r swyddogion fod yn ofalus bob amser mewn sefyllfaoedd o'r fath er mwyn osgoi taflu amheuaeth ar eu didueddrwydd.

2.9 **Canfasio ac ymweld** – Dylai'r aelodau fod yn ymwybodol y gall fod yn destun achos disgyblu os yw aelod o'r staff yn ceisio osgoi gweithdrefnau, y cytunwyd arnynt ar gyfer ymgynghori gyda'r staff, ac yn lobïo'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hwy fel gweithwyr. Hefyd, dylai'r aelodau gofio na ddylid defnyddio cysylltiadau anffurfiol â'r staff i hyrwyddo eu buddiannau personol eu hunain.

Bydd yr aelodau'n aml yn dod i gysylltiad â swyddogion is pan fyddant yn ymweld â safleoedd y Gwasanaeth. Mae ymweliadau o'r fath yn cael eu hannog gan eu bod yn fodd i'r aelodau gael mwy o ddealltwriaeth o swyddogaethau'r Gwasanaeth, yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr gwasanaethau fod eu cynrychiolwyr etholedig yn monitro gwasanaethau, a hefyd bydd y staff eu hunain yn aml yn croesawu hynny. Fodd bynnag, dylid trefnu ymweliadau o'r fath drwy Swyddog Cyswllt yr Aelodau, ac fel arfer dylai'r prif swyddogion perthnasol gael gwybod o flaen llaw am ymweliadau gan aelodau i wasanaethau rheng flaen.

2.10 Dylid osgoi **perthynas bersonol agos** rhwng yr aelodau a'r swyddogion y mae ganddynt gyswllt â hwy, neu y maent yn debygol o gael cyswllt â hwy, drwy eu dyletswyddau fel cynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys cyfeillgarwch agos rhwng aelodau a phrif swyddogion, ac mae'n ymwneud yn arbennig â pherthynas rywiol. Os oes perthynas o'r fath yn digwydd, dylai'r aelod neu'r swyddog ddatgelu hynny i'r Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr, a fydd yn ymgynghori â'r Cadeirydd ynglŷn â'r ffordd briodol ymlaen. Hefyd, dylai'r aelodau a'r swyddogion osgoi sefydlu perthynas fusnes neu gytundebol gyda'i gilydd, neu ymwneud â benthyciadau neu ymrwymiadau ariannol eraill.

2.11 **Cymorth i'r holl aelodau** – Mae dyletswydd ar y swyddogion i gynnig yr un cymorth a chyfleusterau i'r holl aelodau. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â briffiadau, pryd y bydd swyddogion yn cyngor a gwybodaeth ar lafar i'r aelodau y tu allan i brosesau ffurfiol yr Awdurdod. Mae'n bosibl y byddant yn rhai y gofynnir amdanynt gan yr aelodau perthnasol neu'n rhai a gynigir gan un o'r prif swyddogion, ac maent yn gyfrinachol yn yr ystyr na ddylai'r swyddogion ddatgelu'r materion a drafodir mewn briffiadau o'r fath. Gall aelodau unigol ofyn hefyd am friffiadau gan y prif swyddogion o bryd i'w gilydd ynglŷn â materion cyffredinol sy'n effeithio ar waith yr Awdurdod. Mae dyletswydd ar y swyddogion i gydymffurfio â cheisiadau rhesymol o'r fath.

2.12 **Gohebiaeth a chyfrinachedd** – Yn aml, bydd aelodau a swyddogion yn gohebu â'i gilydd, a phan na fydd gohebiaeth o'r fath yn amlwg yn gyfrinachol mae'n bosibl y bydd, gan ddilyn y rheolau isod, yn cael ei chopïo i eraill, gan naill ai'r sawl sy'n ei hanfon neu'n ei derbyn. Dylai gohebiaeth fod yn gwrtais. Ni ddylid ei dosbarthu'n eang fel ffordd o geryddu swyddog neu aelod o'r Awdurdod yn gyhoeddus. Pan fo modd, dylai'r aelodau adael i benaethiaid adrannau neu isadrannau wybod am faterion drwy gopïo gohebiaeth, e-byst ac ati iddynt neu fynd atynt yn uniongyrchol i gael atebion i ymholiadau cyffredinol.

Os bydd aelod yn gofyn am wybodaeth am aelod arall, neu'n gofyn am sylw ynglŷn ag ymddygiad aelod arall, yna dylai'r aelod sy'n gofyn am yr wybodaeth gael gwybod yn ysgrifenedig y bydd unrhyw ateb yn cael ei rannu gyda'r aelod y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi. Os na fydd yr aelod sy'n gwneud y cais yn cytuno i hyn, ni fydd yn cael yr wybodaeth.

2.13 **Mynediad at wybodaeth** – Mae gan yr aelodau hawliau cyfreithiol i gael mynediad at ddogfennau sydd ym meddiant yr Awdurdod neu dan ei reolaeth, a dylai'r swyddogion weithredu ceisiadau am wybodaeth gan aelodau sydd angen yr wybodaeth honno i gyflawni eu dyletswyddau fel aelodau.

a) Fel arfer, bydd swyddogion yn derbyn na fydd aelodau yn gofyn am wybodaeth heb reswm da ac ni fyddant yn cwestiynu angen yr aelod i wybod. Ond yng ngeiriau dyfarniadau cyfreithiol perthnasol, nid oes gan aelod hawl i "gennad i grwydro ("roving commission"), ac nid yw "chwilfrydedd neu awydd pur" ("mere curiosity or desire") yn ddigon. Ni all yr aelod ychwaith arfer yr hawl ar sail cymhelliad amhriodol, e.e. cynorthwyo rhywun sy'n ymgyfreitha â'r Awdurdod, ei staff, ei gyflenwyr neu ddefnyddwyr ei wasanaethau.

b) Mewn achosion prin felly gall y Prif Swyddog Tân ddefnyddio'r prawf "angen i wybod". Bydd angen i'r aelod ddangos pam fod angen yr wybodaeth er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod. Pan fo swyddog yn ystyried nad yw aelod wedi profi'r "angen i wybod" i gefnogi cais am fynediad at wybodaeth a bod y swyddog yn gwrthod darparu'r wybodaeth y gwneir cais amdani, rhaid i'r swyddog ddatgan rhesymau dros wneud hynny.

c) Dylai aelod sy'n gofyn am wybodaeth gymhleth neu swmpus fod yn hyblyg yn ei gais os yw casglu ac atgynhyrchu'r ddogfennaeth yn arwain at gost sylweddol i adran. Fel arfer, bydd yr aelod yn gallu cadw deunydd am gyfnod rhesymol a chopïo dogfennau unigol, ond ni all ddefnyddio gwybodaeth o'r fath at ddiben amhriodol neu heb fod yn gysylltiedig â dyletswyddau'r aelod fel cynghorydd.

2.14 **Y wasg a chysylltiadau cyhoeddus** – Y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol fydd yn cysylltu â'r cyfryngau ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Awdurdod neu fusnes yr Awdurdod, gan gynnwys rhyddhau datganiadau i'r wasg.

Bydd unrhyw aelod sydd, heb fynd at y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân yn gyntaf neu ymgynghori â hwy, yn mynd at y cyfryngau gan honni ei fod yn siarad ar ran yr Awdurdod ynglŷn ag unrhyw eitem sy'n ymwneud â'r Awdurdod neu'n effeithio arno, yn gyfrifol am weithred o'r fath.

## 3. Hawliau Cyfreithiol yr Aelodau

Ni fydd dim yn y cod hwn yn amharu mewn unrhyw ffordd ar unrhyw hawl sydd gan aelod dan y gyfraith, ac mae hawliau cyfreithiol o'r fath yn drech nag unrhyw ddarpariaethau sy'n anghyson â'r rheini yn y cod hwn.